# Cofrestrfa Tir EF

## Datganiad o wirionedd i gefnogi cais am gofrestriad ar sail meddiant gwrthgefn

# ST1

**Dylai unrhyw rannau o'r ffurflen nad ydynt yn cael eu teipio gael eu llenwi mewn inc du ac mewn prif lythrennau**.

Os bydd angen mwy o le arnoch na'r hyn sydd ar gael mewn panel, ac mae'ch meddalwedd yn caniatáu hynny, gallwch ehangu unrhyw banel yn y ffurflen. Fel arall defnyddiwch ddalen barhau CS a'i hatodi i'r ffurflen hon.

Os yw datganiad ar y cyd yn cael ei wneud gan ddau unigolyn neu fwy, gellir gwneud newidiadau ôl-ddilynol i'r testun yn y paneli (er enghraifft, gellir newid 'Rwyf' i 'Rydym').

Ni all Cofrestrfa Tir EF roi cyngor cyfreithiol ond mae canllawiau ar geisiadau i Gofrestrfa Tir EF (gan gynnwys ein cyfarwyddiadau ymarfer i drawsgludwyr) ar gael o www.gov.uk/land-registry.

I gael gwybodaeth am sut mae Cofrestrfa Tir EF yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, gweler ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

| | |
|---|---|
| Rhowch enw llawn.<br><br>Rhowch gyfeiriad llawn. | **1** Rwyf i:<br><br>o:<br><br>yn gwneud y datganiad hwn i gefnogi cais i'r Gofrestrfa Tir am gofrestriad ar sail meddiant gwrthgefn. |
| Rhowch 'X' mewn un blwch yn unig.<br><br>Mae hyn ar gyfer achosion lle mae'r sgwatiwr yn gwmni neu'n fusnes, rhywun sydd wedi marw, neu fel arall yn rhywun na all wneud y datganiad yn bersonol. Rhowch enw a chyfeiriad y sgwatiwr.<br><br>Rhowch resymau a disgrifiwch y berthynas rhwng y sawl sy'n gwneud y datganiad a'r sawl y mae'n cael ei wneud ar ei ran. Amgaewch unrhyw ddogfennaeth berthnasol (er enghraifft, copi swyddfa grant profiant). | **2** Statws<br><br>Rwyf i<br>☐ â meddiant gwrthgefn ar hyn o bryd<br>☐ yn rhywun oedd â meddiant gwrthgefn yn flaenorol<br>☐ yn gwneud y datganiad ar ran:<br><br>sydd â meddiant gwrthgefn ar hyn o bryd neu oedd â meddiant gwrthgefn yn flaenorol ond ni all wneud y datganiad hwn am y rhesymau canlynol: |
| Rhowch gyfeiriad gan gynnwys cod post (os oes) neu ddisgrifiad arall o'r eiddo, er enghraifft 'tir yn ffinio â 2 Acacia Avenue'.<br><br>Rhowch 'X' yn y blwch (blychau) priodol a chwblhewch y datganiad perthnasol.<br><br>Nodwch sut y cyfeirir ato, er enghraifft 'gydag amlinelliad coch'.<br><br>Rhowch rif(au) teitl os yw'r tir eisoes wedi ei gofrestru. Os mai dim ond rhan o'r teitl cofrestredig yr effeithir arni dylid dynodi'r tir yr effeithir arno yn eglur ar y cynllun atodedig neu drwy gyfeiriad sydd i'w weld ar y cynllun teitl. | **3** Eiddo:<br><br>☐ Mae'r tir wedi ei ddynodi'n eglur ar y cynllun atodedig ac wedi ei ddangos:<br><br>☐ Mae'r tir wedi ei gofrestru ar hyn o bryd o dan y rhif(au) teitl: |
| Rhowch y dyddiadau y dechreuodd ac y gorffennodd y meddiant gwrthgefn. Rhaid nodi unrhyw 'fylchau' os nad yw'n gyfnod di-dor. Dylid cynnwys cyfnod y meddiant gwrthgefn gan y sawl sy'n gwneud y datganiad hwn neu y mae'n cael ei wneud ar ei ran yn unig. | **4** Cyfnod y meddiant gwrthgefn: |

| | |
|---|---|
| Rhowch fanylion y gweithredoedd y dibynnir arnynt i sefydlu'r meddiant ffeithiol angenrheidiol a'r bwriad i feddiannu. Dylid cynnwys manylion y defnydd a wneir o'r tir gan y perchennog ac eraill. | 5 Gweithredoedd meddiant gwrthgefn: |
| Rhowch fanylion sy'n dangos i ba raddau, os o gwbl, y bu'r tir yn amgaeedig a/neu y mae'n amgaeedig gan ffensys neu nodweddion terfyn eraill. Esboniwch natur y nodweddion hyn, pwy a'u cododd a phryd, a phwy fu'n eu cynnal. Os oes clwyd, nodwch a oes clo arni ac, os felly, gan bwy mae'r allwedd. Os yw unrhyw nodweddion terfyn blaenorol wedi cael eu symud ymaith, nodwch pryd, gan bwy ac o dan ba amgylchiadau y gwnaethpwyd hyn. | 6 Amgáu'r tir: |
| Rhowch 'X' yn y blwch (blychau) priodol a chwblhewch y datganiad os yw'n gymwys.<br><br>Rhowch fanylion, er enghraifft, unrhyw denantiaeth neu drwydded y mae'r meddiant wedi cael ei fwynhau arni, gan gynnwys y dyddiad y daeth i ben neu y cafodd ei therfynu.<br><br>Rhowch fanylion. | 7 Caniatâd i feddiannu<br>Bu'r meddiant<br>☐ heb gydsyniad, trwydded neu ganiatâd unrhyw un ar unrhyw adeg<br>☐ trwy rinwedd y cydsyniad, trwydded neu ganiatâd canlynol, sydd wedi dod i ben neu gael ei derfynu:<br><br>☐ trwy rinwedd y cydsyniad, trwydded neu ganiatâd canlynol: |

| | | |
|---|---|---|
| Rhowch enw a chyfeiriad unrhyw berchennog rhydd-ddaliol y tir sy'n hysbys neu'r sawl y tybiwyd mai ef/hi yw'r perchennog rhydd-ddaliol (fel y sawl sydd â'r teitl dogfennol digofrestredig i'r tir neu berchennog cofrestredig y tir cofrestredig) a/neu unrhyw denantiaid a/neu forgeiseion. Os nad yw'n hysbys, nodwch hyn trwy roi 'ddim yn hysbys'. Os yw'r tir yn ddigofrestredig, dylid cyflwyno copïau o unrhyw weithredoedd teitl neu ddogfennaeth berthnasol arall, os ydynt ar gael. | 8 | Manylion unrhyw berchennog rhydd-ddaliol y tir sy'n hysbys neu'r sawl y tybiwyd mai ef/hi yw'r perchennog rhydd-ddaliol a phobl gysylltiedig: |
| Rhowch fanylion unrhyw gyswllt yn y gorffennol neu gyswllt presennol â pherchennog rhydd-ddaliol y tir neu'r sawl y tybiwyd mai ef/hi yw'r perchennog rhydd-ddaliol a/neu unrhyw denantiaid a/neu forgeiseion, gan gynnwys dyddiadau. Os na fu unrhyw gyswllt, nodwch hyn trwy roi 'dim'. Os bu unrhyw anghydfod ynghylch y meddiant gwrthgefn, rhowch fanylion, gan gynnwys dyddiadau. Atodwch gopïau o'r holl ohebiaeth sydd ar gael neu ddogfennau eraill sy'n ymwneud â'r cyswllt neu'r anghydfod. | 9 | Cyswllt â pherchennog rhydd-ddaliol y tir a phobl gysylltiedig: |
| Rhowch fanylion y cyfryw eiddo. Os yw'r teitl i'r eiddo arall hwn yn gofrestredig, dyfynnwch y rhif(au) teitl perthnasol a rhowch gopïau o'r gweithredoedd teitl cyn-gofrestru perthnasol. Os yw'r teitl i'r eiddo arall hwn yn ddigofrestredig, cadarnhewch a yw'n eiddo rhydd-ddaliol neu brydlesol a rhowch gopïau o'r gweithredoedd teitl perthnasol. | 10 | Eiddo arall yr oedd y sawl sy'n gwneud y datganiad hwn neu'r sawl y gwneir y datganiad hwn ar ei ran yn berchen arno yn ystod y cyfnod y cyfeiriwyd ato ym mhanel 4: |
| Rhowch fanylion perthnasol eraill, (os oes). | 11 | Manylion perthnasol eraill |

Rhowch 'X' yn y blwch wrth ochr pob un o'r datganiadau sy'n cael eu gwneud, a chwblhewch un neu'r ddau ddatganiad terfynol, os ydynt yn cael eu gwneud. Rhaid i chi wneud y tri datganiad cyntaf, fel arall gall eich cais gael ei ddileu.

12 Os yw'r cais o dan baragraff 1 o Atodlen 6 i Ddeddf Cofrestru Tir 2002 A chi yw'r ceisydd

☐ Nid yw paragraff 1(3) o Atodlen 6 i Ddeddf Cofrestru Tir 2002 yn gymwys

☐ Cadarnhaf hyd orau fy ngwybodaeth nad yw'r cyfyngiad ar geisiadau ym mharagraff 8 o Atodlen 6 i Ddeddf Cofrestru Tir 2002 yn gymwys

☐ Cadarnhaf hyd orau fy ngwybodaeth nad yw'r ystad, ac na fu'r ystad yn ystod unrhyw gyfnod o'r meddiant gwrthgefn a hawliwyd, yn ddarostyngedig i ymddiried (heblaw un lle mae budd pob buddiolwr yn fudd mewn meddiant)

☐ Pe byddai rhywun sy'n cael rhybudd o dan baragraff 2 o Atodlen 6 i Ddeddf Cofrestru Tir 2002 yn gofyn i'r cais gael ei drin o dan baragraff 5 o'r Atodlen honno, mae'r ffeithiau sy'n cefnogi fy nibyniad ar un neu ragor o'r amodau a nodwyd yn y paragraff hwnnw fel a ganlyn:

Rhowch fanylion y ffeithiau.

☐ Rwy'n dibynnu ar baragraff 1(2) o Atodlen 6 i Ddeddf Cofrestru Tir 2002 ac mae'r ffeithiau sy'n cefnogi'r cyfryw ddibyniad fel a ganlyn:

Rhowch fanylion y ffeithiau.

Rhowch 'X' yn y blwch wrth ochr pob un o'r datganiadau sy'n cael eu gwneud, a chwblhewch y datganiad terfynol. Rhaid i chi wneud yr holl ddatganiadau hyn, a rhaid i chi gwblhau'r datganiad terfynol, fel arall gall eich cais gael ei ddileu.

13 Os yw'r cais o dan baragraff 6 o Atodlen 6 i Ddeddf Cofrestru Tir 2002 A chi yw'r ceisydd

☐ Nid yw paragraff 6(2) o Atodlen 6 i Ddeddf Cofrestru Tir 2002 yn gymwys

☐ Cadarnhaf hyd orau fy ngwybodaeth nad yw'r cyfyngiad ar geisiadau ym mharagraff 8 o Atodlen 6 i Ddeddf Cofrestru Tir 2002 yn gymwys

☐ Cadarnhaf hyd orau fy ngwybodaeth nad yw'r ystad, ac na fu'r ystad yn ystod unrhyw gyfnod o'r meddiant gwrthgefn a hawliwyd, yn ddarostyngedig i ymddiried (heblaw un lle mae budd pob buddiolwr yn fudd mewn meddiant)

☐ Mae manylion llawn y cais a wrthodwyd fel a ganlyn:

Rhowch fanylion llawn.

| | |
|---|---|
| Os nad yw'r sawl sy'n gwneud y datganiad yn gallu ei lofnodi, bydd angen newid y geiriad hwn i gydymffurfio â rheol 215A(5) a (6) o Reolau Cofrestru Tir 2003. Yn ogystal, ac mewn achosion lle na all y sawl sy'n gwneud y datganiad ddarllen, bydd angen cael tystysgrif briodol: gweler rheol 215A(4) a (5).<br><br>Os yw'r cais hwn yn cael ei wneud o dan Atodlen 6 a'r sawl sy'n gwneud y datganiad hwn, neu y mae'n cael ei wneud ar ei ran, yw'r ceisydd, rhaid i'r datganiad gael ei wneud ddim mwy na mis cyn dyddiad y cais. | 14 Credaf fod y ffeithiau a'r materion a gynhwysir yn y datganiad hwn yn wir<br><br>Llofnod (y sawl sy'n gwneud y datganiad hwn): ______________________________<br><br>Printiwch yr enw llawn:<br><br>Dyddiad: |

RHYBUDD
Os yw'r cais yn mynd rhagddo, gall rhybudd o'r cais (gyda chopi o'r datganiad o wirionedd hwn) gael ei anfon gan y Cofrestrydd at berchennog y tir neu unrhyw un y tybiwyd mai ef/hi yw'r perchennog a/neu unrhyw un arall y cred y Cofrestrydd ei fod yn angenrheidiol neu'n ddymunol i roi rhybudd iddo/iddi.

Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu'n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu'r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni'r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

Os nad ydych yn llenwi'r ffurflen hon gyda'r gofal priodol gall diogelwch o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 gael ei golli os yw camgymeriad yn cael ei wneud yn y gofrestr o ganlyniad i hyn.

O dan adran 66 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 mae'r rhan fwyaf o ddogfennau (gan gynnwys y ffurflen hon) a gedwir gan y cofrestrydd sy'n ymwneud â chais a gyflwynir i'r cofrestrydd neu y cyfeirir ato yn y gofrestr ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio a'u copïo. Os ydych yn credu bod dogfen yn cynnwys gwybodaeth niweidiol, gallwch wneud cais i'r rhan honno o'r ddogfen gael ei heithrio trwy ddefnyddio Ffurflen EX1, o dan reol 136 o Reolau Cofrestru Tir 2003.

© Hawlfraint y Goron (cyf: LR/HO) 05/18